OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2019 Rhif 1482 (Cy. 266)

2019 No. 1482 (W. 266)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019

The Official Feed and Food Controls (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2019

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau o ran Cymru i nifer o ddarnau o is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu'n rhannol Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 15 Mawrth 2017 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion (OJ Rhif L 95, 7.4.2017, t. 1), a Rheoliadau Gweithredu a Rheoliadau Dirprwyedig a wneir o dan y Rheoliad hwnnw.

Mae rholiad 2 yn diwygio Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001 (O.S. 2001/1440 (Cy. 102)).

Mae rheoliadau 3 i 7 yn diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (O.S. 2006/31 (Cy. 5)).

Mae rheoliadau 8 i 33 yn diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 (O.S. 2009/3376 (Cy. 298)).

Mae rheoliadau 34 i 37 yn diwygio Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1605 (Cy. 186)).

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make amendments in relation to Wales to a number of pieces of secondary legislation relating to food and feed. These Regulations provide for the partial implementation of Regulation (EU) 2017/625 of the European Parliament and of the Council of 15 March 2017 on official controls and other official activities performed to ensure the application of food and feed law, rules on animal health and welfare, plant health and plant protection products (OJ No. L 95, 7.4.2017, p. 1) and of Implementing and Delegated Regulations made under it.

Regulation 2 amends the Coffee Extracts and Chicory Extracts (Wales) Regulations 2001 (S.I. 2001/1440 (W. 102)).

Regulations 3 to 7 amend the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006 (S.I. 2006/31 (W. 5)).

Regulations 8 to 33 to amend the Official Feed and Food Controls (Wales) Regulations 2009 (S.I. 2009/3376 (W. 298)).

Regulations 34 to 37 amend the Plastic Kitchenware (Conditions on Imports from China) (Wales) Regulations 2011 (S.I. 2011/1605 (W. 186)).

Mae rheoliad 38 yn diwygio Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/479 (Cy. 55)).

Mae rheoliadau 39 i 41 yn diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016 (O.S. 2016/387 (Cy. 121)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Tŷ Southgate, Caerdydd CF10 1EW.

Regulation 38 amends the Food Safety (Sampling and Qualifications) (Wales) Regulations 2013 (S.I. 2013/479 (W. 55)).

Regulations 39 to 41 amend the Animal Feed (Hygiene, Sampling etc. and Enforcement) (Wales) Regulations 2016 (S.I. 2016/387 (W. 121)).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Cardiff, CF10 1EW.

2019 Rhif 1482 (Cy. 266)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019

Gwnaed	*27 Tachwedd 2019*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*28 Tachwedd 2019*
Yn dod i rym	*14 Rhagfyr 2019*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**), a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas ag—

(a) mesurau mewn cysylltiad â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, neu sy'n cael ei fwydo i anifeiliaid o'r fath(**2**);

(**1**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7). Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 ac O.S. 2007/1388.

(**2**) O.S. 2005/1971. Mae'r swyddogaethau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi.

2019 No. 1482 (W. 266)

AGRICULTURE, WALES

FOOD, WALES

The Official Feed and Food Controls (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2019

Made	*27 November 2019*
Laid before the National Assembly for Wales	*28 November 2019*
Coming into force	*14 December 2019*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 2(2) of, and paragraph 1A of Schedule 2 to, the European Communities Act 1972(**1**).

The Welsh Ministers have been designated for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972 in relation to—

(a) measures in respect of food (including drink) including the primary production of food and measures relating to feed produced for or fed to food-producing animals(**2**);

(**1**) 1972 c. 68. Section 2(2) was amended by section 27(1)(a) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51) and Part 1 of the Schedule to the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7). Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 and was amended by Part 1 of the Schedule to the European Union (Amendment) Act 2008 and S.I. 2007/1388.

(**2**) S.I. 2005/1971. The functions conferred on the National Assembly for Wales by this designation are transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(b) mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd(**1**);

(c) mesurau mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(**2**).

(b) measures in the veterinary and phytosanitary fields for the protection of public health(**1**);

(c) measures in relation to the common agricultural policy of the European Union(**2**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i—

(a) unrhyw gyfeiriad yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(**3**) at offeryn UE a ddiffinnir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny, fel y diwygir y Rheoliadau hynny gan y Rheoliadau hyn, a

(b) unrhyw gyfeiriad yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(**4**) at offeryn UE a ddiffinnir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny, fel y diwygir y Rheoliadau hynny gan y Rheoliadau hyn,

gael ei ddehongli fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972 and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for—

(a) any reference in the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006(**3**) to an EU instrument defined in Schedule 1 to those Regulations, as those Regulations are amended by these Regulations, and

(b) any reference in the Official Food and Feed Controls (Wales) Regulations 2009(**4**) to an EU instrument defined in Schedule 1 to those Regulations, as those Regulations are amended by these Regulations,

to be construed as a reference to that instrument as amended from time to time.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**5**), ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn.

As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety**(5)** there has been open and transparent public consultation during the preparation of these Regulations.

(**1**) O.S. 2008/1792.
(**2**) O.S. 2010/2690.
(**3**) O.S. 2006/31 (Cy. 5), yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2010/893 (Cy. 92), O.S. 2012/1765 (Cy. 225), O.S. 2013/479 (Cy. 55), O.S. 2013/3007 (Cy. 298), O.S. 2013/3049 (Cy. 308), O.S. 2014/1858 (Cy. 192), O.S. 2016/845 (Cy. 214) a ac O.S. 2018/806 (Cy. 162). Mae wedi ei ddiwygio'n rhagolygol gan O.S. 2019/1046 (Cy. 185).
(**4**) O.S. 2009/3376 (Cy. 298), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/2652 (Cy. 220), O.S. 2011/626 (Cy. 90), O.S. 2011/1043, O.S. 2013/479 (Cy. 55), O.S. 2013/3007 (Cy. 298), O.S. 2013/3049 (Cy. 308), O.S. 2014/2714 (Cy. 271), O.S. 2016/386 (Cy. 120), O.S. 2016/387 (Cy. 121), O.S. 2018/40 (Cy. 12), O.S. 2018/806 (Cy. 162), O.S. 2018/968 (Cy. 195) ac O.S. 2019/463 (Cy. 111). Mae wedi ei ddiwygio'n rhagolygol gan O.S. 2019/434 (Cy. 102) ac O.S. 2019/1046 (Cy. 185).
(**5**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2019/1243 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 198, 25.7.2019, t. 241).

(**1**) S.I. 2008/1792.
(**2**) S.I. 2010/2690.
(**3**) S.I. 2006/31 (W. 5); relevant amending instruments are S.I. 2010/893 (W. 92), S.I. 2012/1765 (W. 225), S.I. 2013/479 (W. 55), S.I. 2013/3007 (W. 298), S.I. 2013/3049 (W. 308), S.I. 2014/1858 (W. 192), S.I. 2016/845 (W. 214) and S.I. 2018/806 (W. 162). It is prospectively amended by S.I. 2019/1046 (W. 185).
(**4**) S.I. 2009/3376 (W. 298), amended by S.I. 2010/2652 (W. 220), S.I. 2011/626 (W. 90), S.I. 2011/1043, S.I. 2013/479 (W. 55), S.I. 2013/3007 (W. 298), S.I. 2013/3049 (W. 308), S.I. 2014/2714 (W. 271), S.I. 2016/386 (W. 120), S.I. 2016/387 (W. 121), S.I. 2018/40 (W. 12), S.I. 2018/806 (W. 162), S.I. 2018/968 (W. 195) and S.I. 2019/463 (W. 111). It is prospectively amended by S.I. 2019/434 (W. 102) and S.I. 2019/1046 (W. 185).
(**5**) OJ No. L 31, 1.2.2002, p. 1, as last amended by Regulation (EU) 2019/1243 of the European Parliament and of the Council (OJ No. L 198, 25.7.2019, p. 241).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Rhagfyr 2019.

Diwygio Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001

2. Yn Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001(**1**), yn rheoliad 7 (cosbi a gorfodi), ym mharagraff (3), yn lle "Atodiad 3 i Reoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau y caiff cydymffurfedd â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid ei wirio" rhodder "Atodiad 3 i Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion".

Diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

3. Mae Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

4. Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle'r diffiniad o "Rheoliadau'r Gymuned" rhodder—

"ystyr "Rheoliadau'r Gymuned" ("*the Community Regulations*") yw Rheoliad 852/2004, Rheoliad 853/2004, Rheoliad 2073/2005, Rheoliad 2015/1375, Rheoliad 2017/185, Rheoliad 2017/625 a phecyn Rheoliad 2017/625 i'r graddau y mae ef ac y maent hwy yn gymwys i fwyd;";

(ii) yn lle'r diffiniad sy'n dechrau "mae i "Penderfyniad 2006/766"" rhodder—

"mae i "Cyfarwyddeb 2004/41" ("*Directive 2004/41*"), "Rheoliad 178/2002" ("*Regulation 178/2002*"), "Rheoliad 852/2004" ("*Regulation 852/2004*"), "Rheoliad 853/2004" ("*Regulation 853/2004*"), "Rheoliad 1688/2005"

(**1**) O.S. 2001/1440 (Cy. 102), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/806 (Cy. 162); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Title and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Official Feed and Food Controls (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2019.

(2) These Regulations come into force on 14 December 2019.

Amendment of the Coffee Extracts and Chicory Extracts (Wales) Regulations 2001

2. In the Coffee Extracts and Chicory Extracts (Wales) Regulations 2001(**1**), in regulation 7 (penalties and enforcement), in paragraph (3), for "Annex 3 to Regulation (EC) No 882/2004 of the European Parliament and of the Council on official controls performed to ensure the verification of compliance with feed and food law, animal health and animal welfare rules" substitute "Annex 3 of Regulation (EU) 2017/625 of the European Parliament and of the Council on official controls and other official activities performed to ensure the application of food and feed law, rules on animal health and welfare, plant health and plant protection products".

Amendment of the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006

3. The Food Hygiene (Wales) Regulations 2006 are amended as follows.

4. In regulation 2 (interpretation)—

(a) in paragraph (1)—

(i) for the definition of "the Community Regulations" substitute—

""the Community Regulations" ("*Rheoliadau'r Gymuned*") means Regulation 852/2004, Regulation 853/2004, Regulation 2073/2005, Regulation 2015/1375, Regulation 2017/185, Regulation 2017/625 and the Regulation 2017/625 package insofar as it and they apply to food;";

(ii) for the definition that begins ""Decision 2006/766"" substitute—

""Directive 2004/41" ("*Cyfarwyddeb 2004/41*"), "Regulation 178/2002" ("*Rheoliad 178/2002*"), "Regulation 852/2004" ("*Rheoliad 852/2004*"), "Regulation 853/2004" ("*Rheoliad 853/2004*"), "Regulation 1688/2005"

(**1**) S.I. 2001/1440 (W. 102), amended by S.I. 2018/806 (W. 162); there are other amending instruments but none is relevant.

("*Regulation 1668/2005*"), "Rheoliad 2073/2005" ("*Regulation 2073/2005*"), "Rheoliad 2074/2005" ("*Regulation 2074/2005*"), "Rheoliad 931/2011" ("*Regulation 931/2011*"), "Rheoliad 1169/2011" ("*Regulation 1169/2011*"), "Rheoliad 28/2012" ("*Regulation 28/2012*"), "Rheoliad 208/2013" ("*Regulation 208/2013*"), "Rheoliad 210/2013" ("*Regulation 210/2013*"), "Rheoliad 579/2014" ("*Regulation 579/2014*"), "Rheoliad 2015/1375" ("*Regulation 2015/1375*"), "Rheoliad 2017/185" ("*Regulation 2017/185*"), "Rheoliad 2017/625" ("*Regulation 2017/625*"), "Rheoliad 2018/329" ("*Regulation 2018/329*"), "Rheoliad 2018/631" ("*Regulation 2018/631*"), "Rheoliad 2019/66" ("*Regulation 2019/66*"), "Rheoliad 2019/478" ("*Regulation 2019/478*"), "Rheoliad 2019/530" ("*Regulation 2019/530*"), "Rheoliad 2019/624" ("*Regulation 2019/624*"), "Rheoliad 2019/625" ("*Regulation 2019/625*"), "Rheoliad 2019/626" ("*Regulation 2019/626*"), "Rheoliad 2019/627" ("*Regulation 2019/627*"), "Rheoliad 2019/628" ("*Regulation 2019/628*"), "Rheoliad 2019/723" ("*Regulation 2019/723*"), "Rheoliad 2019/1012" ("*Regulation 2019/1012*"), "Rheoliad 2019/1013" ("*Regulation 2019/1013*"), "Rheoliad 2019/1014" ("*Regulation 2019/1014*"), "Rheoliad 2019/1081" ("*Regulation 2019/1081*"), "Rheoliad 2019/1602" ("*Regulation 2019/1602*"), "Rheoliad 2019/1666" ("*Regulation 2019/1666*"), "Rheoliad 2019/1715" ("*Regulation 2019/1715*"), "Rheoliad 2019/1793" ("*Regulation 2019/1793*") a "Rheoliad 2019/1873" ("*Regulation 2019/1873*"), yr ystyron a roddir iddynt yn ôl eu trefn yn Atodlen 1;";

("*Rheoliad 1668/2005*"), "Regulation 2073/2005" ("*Rheoliad 2073/2005*"), "Regulation 2074/2005" ("*Rheoliad 2074/2005*"), "Regulation 931/2011" ("*Rheoliad 931/2011*"), "Regulation 1169/2011" ("*Rheoliad 1169/2011*"), "Regulation 28/2012" ("*Rheoliad 28/2012*"), "Regulation 208/2013" ("*Rheoliad 208/2013*"), "Regulation 210/2013" ("*Rheoliad 210/2013*"), "Regulation 579/2014" ("*Rheoliad 579/2014*"), "Regulation 2015/1375" ("*Rheoliad 2015/1375*"), "Regulation 2017/185" ("*Rheoliad 2017/185*"), "Regulation 2017/625" ("*Rheoliad 2017/625*"), "Regulation 2018/329" ("*Rheoliad 2018/329*"), "Regulation 2018/631" ("*Rheoliad 2018/631*"), "Regulation 2019/66" ("*Rheoliad 2019/66*"), "Regulation 2019/478" ("*Rheoliad 2019/478*"), "Regulation 2019/530" ("*Rheoliad 2019/530*"), "Regulation 2019/624" ("*Rheoliad 2019/624*"), "Regulation 2019/625" ("*Rheoliad 2019/625*"), "Regulation 2019/626" ("*Rheoliad 2019/626*"), "Regulation 2019/627" ("*Rheoliad 2019/627*"), "Regulation 2019/628" ("*Rheoliad 2019/628*"), "Regulation 2019/723" ("*Rheoliad 2019/723*"), "Regulation 2019/1012" ("*Rheoliad 2019/1012*"), "Regulation 2019/1013" ("*Rheoliad 2019/1013*"), "Regulation 2019/1014" ("*Rheoliad 2019/1014*"), "Regulation 2019/1081" ("*Rheoliad 2019/1081*"), "Regulation 2019/1602" ("*Rheoliad 2019/1602*"), "Regulation 2019/1666" ("*Rheoliad 2019/1666*") "Regulation 2019/1715" ("*Rheoliad 2019/1715*"), "Regulation 2019/1793" ("*Rheoliad 2019/1793*") and "Regulation 2019/1873" ("*Rheoliad 2019/1873*"), have the meanings respectively given to them in Schedule 1;";

(iii) yn y lle priodol, mewnosoder—

"ystyr "pecyn Rheoliad 2017/625" ("*the Regulation 2017/625 package*") yw "Rheoliad 2018/329", "Rheoliad 2018/631", "Rheoliad 2019/66", "Rheoliad 2019/478", "Rheoliad 2019/530", "Rheoliad 2019/624", "Rheoliad 2019/625", "Rheoliad 2019/626", "Rheoliad 2019/627", "Rheoliad 2019/628", "Rheoliad 2019/723", "Rheoliad 2019/1012", "Rheoliad 2019/1013", "Rheoliad 2019/1014", "Rheoliad 2019/1081", "Rheoliad 2019/1602", "Rheoliad 2019/1666", "Rheoliad

(iii) at the appropriate place insert—

""the Regulation 2017/625 package" ("*pecyn Rheoliad 2017/625*") means "Regulation 2018/329", "Regulation 2018/631", "Regulation 2019/66", "Regulation 2019/478", "Regulation 2019/530", "Regulation 2019/624", "Regulation 2019/625", "Regulation 2019/626", "Regulation 2019/627", "Regulation 2019/628", "Regulation 2019/723", "Regulation 2019/1012", "Regulation 2019/1013", "Regulation 2019/1014", "Regulation 2019/1081",

2019/1715", "Rheoliad 2019/1793" a "Rheoliad 2019/1873";";

(b) ym mharagraff (6), yn lle "fel y diwygir unrhyw atodiad iddo" rhodder "fel y'i diwygir".

5. Yn rheoliad 5 (gorfodi), yn lle paragraff (6) rhodder—

"(6) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "lladd-dy" ("*slaughterhouse*") yw sefydliad a ddefnyddir i gigydda a thrin anifeiliaid, y mae eu cig wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl, ac sydd wedi'i gymeradwyo neu wedi'i gymeradwyo'n amodol o dan Erthygl 148 o Reoliad 2017/625;

ystyr "safle torri" ("*cutting plant*") yw sefydliad a ddefnyddir ar gyfer tynnu esgyrn a/neu dorri cig ffres er mwyn ei roi ar y farchnad ac sydd wedi'i gymeradwyo neu wedi'i gymeradwyo'n amodol o dan Erthygl 148 o Reoliad 2017/625;

ystyr "sefydliad trin anifeiliaid hela" ("*game-handling establishment*") yw sefydliad lle caiff anifeiliaid hela a chig anifeiliaid hela a geir ar ôl hela eu paratoi i'w rhoi ar y farchnad ac sydd wedi'i gymeradwyo neu wedi'i gymeradwyo'n amodol o dan Erthygl 148 o Reoliad 2017/625."

6. Yn lle Atodlen 1 (diffiniadau o ddeddfwriaeth yr UE) rhodder yr Atodlen a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

7. Yn Atodlen 3A (gofynion y cyfeirir atynt yn rheoliad 17(5)), ym mharagraff (d), yn lle "o dan Erthygl 5 o Reoliad 854/2004 fel y'i darllenir gyda phwynt 1 Rhan C o Bennod IX Adran IV o Atodiad I i'r Rheoliad hwnnw, eu harchwilio i weld a oes *Trichinosis* arnynt, yn digwydd yn y lladd-dy" rhodder "o dan Erthygl 18(2) o Reoliad 2017/625 fel y'i darllenir gydag Erthygl 31 o Reoliad 2019/627, eu harchwilio i weld a oes *Trichinella* arnynt yn unol ag Erthygl 2 o Reoliad 2015/1375".

Diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

8. Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

9. Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) ym mharagraff (1)—

"Regulation 2019/1602", "Regulation 2019/1666", "Regulation 2019/1715", "Regulation 2019/1793" and "Regulation 2019/1873";";

(b) in paragraph (6), omit "any annex to it may be".

5. In regulation 5 (enforcement), for paragraph (6) substitute—

"(6) In this regulation—

"cutting plant" ("*safle torri*") means an establishment which is used for boning and/or cutting up fresh meat for placing on the market and which is approved or conditionally approved under Article 148 of Regulation 2017/625;

"game-handling establishment" ("*sefydliad trin anifeiliaid hela*") means an establishment in which game and game meat obtained after hunting are prepared for placing on the market and which is approved or conditionally approved under Article 148 of Regulation 2017/625;

"slaughterhouse" ("*lladd-dy*") means an establishment used for slaughtering and dressing animals, the meat of which is intended for human consumption, and which is approved or conditionally approved under Article 148 of Regulation 2017/625."

6. For Schedule 1 (definitions of EU legislation) substitute the Schedule set out in Schedule 1 to these Regulations.

7. In Schedule 3A (requirements referred to in regulation 17(5)), in paragraph (e), for "under Article 5 of Regulation 854/2004 as read with point 1 of Part C of Chapter IX of Section IV of Annex I to that Regulation, require examination for *Trichinosis* takes place at the slaughterhouse" substitute "under Article 18(2) of Regulation 2017/625 as read with Article 31 of Regulation 2019/627, require that examination for *Trichinella* takes place in accordance with Article 2 of Regulation 2015/1375".

Amendment of the Official Feed and Food Controls (Wales) Regulations 2009

8. The Official Feed and Food Controls (Wales) Regulations 2009 are amended as follows.

9. In regulation 2 (interpretation)—

(a) in paragraph (1)—

(i) yn y diffiniad o "awdurdod cymwys", yn lle "Rheoliad 882/2004" rhodder "Rheoliad 2017/625";

(ii) yn lle'r diffiniad sy'n dechrau "mae i "Cyfarwyddeb 2004/41"" rhodder—

"mae i "Cyfarwyddeb 2004/41" ("*Directive 2004/41*"), "Penderfyniad 2007/275" ("*Decision 2007/275*"), "Rheoliad 999/2001" ("*Regulation 999/2001*"), "Rheoliad 178/2002" ("*Regulation 178/2002*"), "Rheoliad 852/2004" ("*Regulation 852/2004*"), "Rheoliad 853/2004" ("*Regulation 853/2004*"), "Rheoliad 1688/2005" ("*Regulation 1668/2005*"), "Rheoliad 2073/2005" ("*Regulation 2073/2005*"), "Rheoliad 2074/2005" ("*Regulation 2074/2005*"), "Rheoliad 2017/185" ("*Regulation 2017/185*"), "Rheoliad 2017/625" ("*Regulation 2017/625*"), "Rheoliad 2018/329" ("*Regulation 2018/329*"), "Rheoliad 2018/631" ("*Regulation 2018/631*"), "Rheoliad 2019/66" ("*Regulation 2019/66*"), "Rheoliad 2019/478" ("*Regulation 2019/478*"), "Rheoliad 2019/530" ("*Regulation 2019/530*"), "Rheoliad 2019/624" ("*Regulation 2019/624*"), "Rheoliad 2019/625" ("*Regulation 2019/625*"), "Rheoliad 2019/626" ("*Regulation 2019/626*"), "Rheoliad 2019/627" ("*Regulation 2019/627*"), "Rheoliad 2019/628" ("*Regulation 2019/628*"), "Rheoliad 2019/723" ("*Regulation 2019/723*"), "Rheoliad 2019/1012" ("*Regulation 2019/1012*"), "Rheoliad 2019/1013" ("*Regulation 2019/1013*"), "Rheoliad 2019/1014" ("*Regulation 2019/1014*"), "Rheoliad 2019/1081" ("*Regulation 2019/1081*"), "Rheoliad 2019/1602" ("*Regulation 2019/1602*"), "Rheoliad 2019/1666" ("*Regulation 2019/1666*"), "Rheoliad 2019/1715" ("*Regulation 2019/1715*"), "Rheoliad 2019/1793" ("*Regulation 2019/1793*") a "Rheoliad 2019/1873" ("*Regulation 2019/1873*"), yr ystyron a roddir iddynt yn ôl eu trefn yn Atodlen 1;";

(iii) yn lle'r diffiniad o "y Darpariaethau Mewnforio" rhodder—

"ystyr "y Darpariaethau Mewnforio" ("*the Import Provisions*") yw Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn, Pennod 5 o Deitl 2 o Reoliad 2017/625 a phecyn Rheoliad 2017/625 i'r graddau y mae ef ac y maent

(i) in the definition of "competent authority", for "Regulation 882/2004" substitute "Regulation 2017/625";

(ii) for the definition that begins ""Directive 2004/41"" substitute—

""Decision 2007/275" ("*Penderfyniad 2007/275*"), "Directive 2004/41" ("*Cyfarwyddeb 2004/41*"), "Regulation 999/2001" ("*Rheoliad 999/2001*"), "Regulation 178/2002" ("*Rheoliad 178/2002*"), "Regulation 852/2004" ("*Rheoliad 852/2004*"), "Regulation 853/2004" ("*Rheoliad 853/2004*"), "Regulation 1688/2005" ("*Rheoliad 1668/2005*"), "Regulation 2073/2005" ("*Rheoliad 2073/2005*"), "Regulation 2074/2005" ("*Rheoliad 2074/2005*"), "Regulation 2017/185" ("*Rheoliad 2017/185*"), "Regulation 2017/625" ("*Rheoliad 2017/625*"), "Regulation 2018/329" ("*Rheoliad 2018/329*"), "Regulation 2018/631" ("*Rheoliad 2018/631*"), "Regulation 2019/66" ("*Rheoliad 2019/66*"), "Regulation 2019/478" ("*Rheoliad 2019/478*"), "Regulation 2019/530" ("*Rheoliad 2019/530*"), "Regulation 2019/624" ("*Rheoliad 2019/624*"), "Regulation 2019/625" ("*Rheoliad 2019/625*"), "Regulation 2019/626" ("*Rheoliad 2019/626*"), "Regulation 2019/627" ("*Rheoliad 2019/627*"), "Regulation 2019/628" ("*Rheoliad 2019/628*"), "Regulation 2019/723" ("*Rheoliad 2019/723*"), "Regulation 2019/1012" ("*Rheoliad 2019/1012*"), "Regulation 2019/1013" ("*Rheoliad 2019/1013*"), "Regulation 2019/1014" ("*Rheoliad 2019/1014*"), "Regulation 2019/1081" ("*Rheoliad 2019/1081*"), "Regulation 2019/1602" ("*Rheoliad 2019/1602*"), "Regulation 2019/1666" ("*Rheoliad 2019/1666*"), "Regulation 2019/1715" ("*Rheoliad 2019/1715*"), "Regulation 2019/1793" ("*Rheoliad 2019/1793*") and "Regulation 2019/1873" ("*Rheoliad 2019/1873*"), have the meanings respectively given to them in Schedule 1;";

(iii) for the definition of "the Import Provisions" substitute—

""the Import Provisions" ("*y Darpariaethau Mewnforio*") means Part 3 of these Regulations, Chapter 5 of Title 2 of Regulation 2017/625 and the Regulation 2017/625 package insofar as it and they

hwy yn gymwys i gynnyrch fel y'i diffinnir yn rheoliad 22;";

(iv) yn y diffiniad o "y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol", yn lle "Rheoliad 882/2004" rhodder "Rheoliad 2017/625 neu becyn Rheoliad 2017/625";

(v) yn y lle priodol, mewnosoder—

"ystyr "pecyn Rheoliad 2017/625" ("*the Regulation 2017/625 package*") yw "Rheoliad 2018/329", "Rheoliad 2018/631", "Rheoliad 2019/66", "Rheoliad 2019/478", "Rheoliad 2019/530", "Rheoliad 2019/624", "Rheoliad 2019/625", "Rheoliad 2019/626", "Rheoliad 2019/627", "Rheoliad 2019/628", "Rheoliad 2019/723", "Rheoliad 2019/1012", "Rheoliad 2019/1013", "Rheoliad 2019/1014", "Rheoliad 2019/1081", "Rheoliad 2019/1602", "Rheoliad 2019/1666", "Rheoliad 2019/1715", "Rheoliad 2019/1793" a "Rheoliad 2019/1873";";

(b) ym mharagraff (3), yn lle "Rheoliad 882/2004 neu Reoliad 669/2009", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "Rheoliad 2017/625 neu unrhyw un o'r Rheoliadau UE ym mhecyn Rheoliad 2017/625".

10. Yn rheoliad 3 (awdurdodau cymwys)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "Rheoliad 882/2004" rhodder "Rheoliad 2017/625";

(b) ym mharagraff (3), yn lle "Rheoliad 882/2004" rhodder "Rheoliad 2017/625";

(c) hepgorer paragraff (5);

(d) ym mharagraff (6), yn lle "Erthygl 31(2) o Reoliad 882/2004, mae'r dynodiad yn ymestyn o ran Erthygl 31(2)(a) i (e)," rhodder "Erthygl 148 o Reoliad 2017/625, mae'r dynodiad yn ymestyn".

11. Yn rheoliad 4 (cyfnewid a darparu gwybodaeth)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "Reoliad 882/2004" rhodder "Reoliad 2017/625";

(b) ym mharagraff (5), yn lle "Rheoliad 882/2004" rhodder "Rheoliad 2017/625".

12. Yn rheoliad 5 (sicrhau gwybodaeth)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle "gorff rheoli" rhodder "gorff dirprwyedig", ac yn lle "corff rheoli", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "corff dirprwyedig";

(ii) yn lle "Reoliad 882/2004" rhodder "Reoliad 2017/625";

apply to product as defined in regulation 22;";

(iv) in the definition of "the Official Control Regulations", for "Regulation 882/2004" substitute "Regulation 2017/625 or the Regulation 2017/625 package";

(v) at the appropriate place, insert—

""the Regulation 2017/625 package" ("*pecyn Rheoliad 2017/625*") means "Regulation 2018/329", "Regulation 2018/631", "Regulation 2019/66", "Regulation 2019/478", "Regulation 2019/530", "Regulation 2019/624", "Regulation 2019/625", "Regulation 2019/626", "Regulation 2019/627", "Regulation 2019/628", "Regulation 2019/723", "Regulation 2019/1012", "Regulation 2019/1013", "Regulation 2019/1014", "Regulation 2019/1081", "Regulation 2019/1602", "Regulation 2019/1666", "Regulation 2019/1715", "Regulation 2019/1793" and "Regulation 2019/1873";";

(b) in paragraph (3), for "Regulation 882/2004 or Regulation 669/2009", in both places it occurs, substitute "Regulation 2017/625 or any of the EU Regulations in the Regulation 2017/625 package".

10. In regulation 3 (competent authorities)—

(a) in paragraph (1), for "Regulation 882/2004" substitute "Regulation 2017/625";

(b) in paragraph (3), for "Regulation 882/2004" substitute "Regulation 2017/625";

(c) omit paragraph (5);

(d) in paragraph (6), for "Article 31(2) of Regulation 882/2004, the designation extends as regards Article 31(2)(a) to (e)," substitute "Article 148 of Regulation 2017/625, the designation extends".

11. In regulation 4 (exchanging and providing information)—

(a) in paragraph (1), for "Regulation 882/2004" substitute "Regulation 2017/625";

(b) in paragraph (5), for "Regulation 882/2004" substitute "Regulation 2017/625".

12. In regulation 5 (obtaining information)—

(a) in paragraph (1)—

(i) for "control body", in each place it occurs, substitute "delegated body";

(ii) for "Regulation 882/2004" substitute "Regulation 2017/625";

(b) ym mharagraff (4), yn lle "corff rheoli" rhodder "corff dirprwyedig", ac yn lle "gorff rheoli" rhodder "gorff dirprwyedig".

13. Yn rheoliad 6 (pŵer i ddyroddi codau o arferion a argymhellir)—

(a) ym mharagraff (1)(a), yn lle "Reoliad 882/2004" rhodder "Reoliad 2017/625";

(b) ym mharagraff (3), yn lle "Reoliad 882/2004" rhodder "Reoliad 2017/625".

14. Yn rheoliad 12 (yr hawl i apelio), ym mharagraff (1)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "Erthygl 31(2)(c) o Reoliad 882/2004 (cymeradwyaeth)" rhodder "Erthygl 148(3) o Reoliad 2017/625 (cymeradwyaeth)";

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "Erthygl 31(2)(d) o Reoliad 882/2004 (cymeradwyaeth amodol a chymeradwyaeth lawn)" rhodder "Erthygl 148(4) o Reoliad 2017/625 (cymeradwyaeth amodol a chymeradwyaeth lawn)";

(c) yn is-baragraff (c), yn lle "Erthygl 31(2)(e) o Reoliad 882/2004 (tynnu cymeradwyaeth yn ôl ac atal cymeradwyaeth)" rhodder "Erthygl 138(2)(j) o Reoliad 2017/625 (atal cymeradwyaeth neu dynnu cymeradwyaeth yn ôl)".

15. Yn rheoliad 14 (staff awdurdod cymwys Aelod-wladwriaeth arall), yn lle "Erthygl 36 o Reoliad 882/2004" rhodder "Erthygl 104(3) o Reoliad 2017/625".

16. Yn rheoliad 15 (arbenigwyr y Comisiwn), ym mharagraff (1)—

(a) yn lle "er mwyn galluogi'r arbenigydd hwnnw" rhodder "ac arbenigydd cenedlaethol, a benodwyd at ddibenion Erthygl 116(4) o Reoliad 2017/625, i ddod gydag arbenigydd y Comisiwn, ac er mwyn galluogi'r arbenigydd hwnnw o'r Comisiwn";

(b) yn lle "Erthygl 45 o Reoliad 882/2004" rhodder "Erthygl 116 o Reoliad 2017/625".

17. Yn rheoliad 17 (gweithredu a gorfodi)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "corff rheoli" rhodder "corff dirprwyedig";

(b) ym mharagraff (5)(b), ar ôl "un o arbenigwyr y Comisiwn" mewnosoder ", a phan fo hynny'n berthnasol, arbenigydd cenedlaethol, ".

18. Yn rheoliad 22 (dehongli'r Rhan hon o'r Rheoliadau hyn)—

(a) yn lle'r diffiniad o "cynnyrch" rhodder—

(b) in paragraph (4), for "control body", in both places it occurs, substitute "delegated body".

13. In regulation 6 (power to issue codes of recommended practice)—

(a) in paragraph (1)(a), for "Regulation 882/2004" substitute "Regulation 2017/625";

(b) in paragraph (3), for "Regulation 882/2004" substitute "Regulation 2017/625".

14. In regulation 12 (right of appeal), in paragraph (1)—

(a) in sub-paragraph (a), for "Article 31(2)(c) of Regulation 882/2004 (approval)" substitute "Article 148(3) of Regulation 2017/625 (approval)";

(b) in sub-paragraph (b), for "Article 31(2)(d) of Regulation 882/2004 (conditional approval and full approval)" substitute "Article 148(4) of Regulation 2017/625 (conditional approval and full approval)";

(c) in sub-paragraph (c), for "Article 31(2)(e) of Regulation 882/2004 (withdrawal of approval and suspension of approval)" substitute "Article 138(2)(j) of Regulation 2017/625 (suspension or withdrawal of approval)".

15. In regulation 14 (staff of competent authority of another member State), for "Article 36 of Regulation 882/2004" substitute "Article 104(3) of Regulation 2017/625".

16. In regulation 15 (Commission experts), in paragraph (1)—

(a) for "to enable that expert" substitute "and a national expert, appointed for the purposes of Article 116(4) of Regulation 2017/625, to accompany and to enable the Commission expert";

(b) for "Article 45 of Regulation 882/2004" substitute "Article 116 of Regulation 2017/625".

17. In regulation 17 (execution and enforcement)—

(a) in paragraph (1), for "control body" substitute "delegated body";

(b) in paragraph (5)(b), after "Commission expert" insert "and, where relevant, a national expert".

18. In regulation 22 (interpretation of this Part of these Regulations)—

(a) for the definition of "product" substitute—

"ystyr "cynnyrch" ("*product*") yw bwyd anifeiliaid a bwyd y mae eu mewnforio wedi'u rheoleiddio gan Erthygl 44 o Reoliad 2017/625 ac mae'n cynnwys y cynhyrchion a'r bwydydd cyfansawdd hynny nad yw'n ofynnol iddynt fod yn ddarostyngedig i wiriadau milfeddygol fel y darperir ym Mhenderfyniad y Comisiwn 2007/275/EC ynghylch rhestrau o anifeiliaid a chynhyrchion sydd i fod yn ddarostyngedig i reolaethau mewn arolygfeydd ffin o dan Gyfarwyddebau'r Cyngor 91/496/EEC a 97/78/EC;";

(b) yn y diffiniad o "y tiriogaethau perthnasol" yn lle "Reoliad 882/2004" rhodder "Reoliad 2017/625";

(c) yn lle'r diffiniad o "darpariaeth fewnforio benodedig" rhodder—

"ystyr "darpariaeth fewnforio benodedig" ("*specified import provision*") yw unrhyw ddarpariaeth yn Rheoliad 2017/625 neu ym mhecyn Rheoliad 2017/625 a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 6 ac y disgrifir ei chynnwys yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno;".

19. Yn rheoliad 23 (cyfrifoldebau gorfodi bwyd anifeiliaid a statws awdurdod cymwys)—

(a) ym mharagraff (2), yn lle "Rheoliad 669/2009 heblaw Erthygl 19" rhodder "Rheoliad 2019/1793";

(b) hepgorer paragraff (4).

20. Yn rheoliad 24 (cyfrifoldebau gorfodi bwyd a statws awdurdod cymwys)—

(a) ym mharagraff (2), yn lle "Rheoliad 669/2009 heblaw Erthygl 19" rhodder "Rheoliad 2019/1793";

(b) hepgorer paragraff (4).

21. Yn rheoliad 25 (swyddogaethau'r Comisiynwyr), yn lle "i wasanaethau tollau o dan Erthygl 24 o Reoliad 882/2004 ac Erthygl 10 o Reoliad 669/2009" rhodder "i awdurdodau tollau o dan Erthyglau 46, 57, 75 ac 76 o Reoliad 2017/625 ac Erthygl 4 o Reoliad 2019/1793".

22. Yn rheoliad 27 (gohirio gweithredu a gorfodi), ym mharagraff (6), yn lle "Erthygl 15(5) o Reoliad 882/2004" rhodder "Erthygl 47(1)(d) a (2)(b) ac Erthygl 54(4) o Reoliad 2017/625".

23. Yn rheoliad 29 (gwirio cynhyrchion), yn lle "Erthygl 16 o Reoliad 882/2004", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "Erthyglau 34(5) a (6), 44(2) a 45(1), (2) a (4) o Reoliad 2017/625".

""product" ("*cynnyrch*") means feed and food whose import is regulated by Article 44 of Regulation 2017/625 and includes those composite products and foodstuffs which are not required to be subject to veterinary checks as provided in Commission Decision 2007/275/EC concerning lists of animals and products to be subject to controls at border inspection posts under Council Directives 91/496/EEC and 97/78/EC;";

(b) in the definition of "the relevant territories" for "Regulation 882/2004" substitute "Regulation 2017/625";

(c) for the definition of "specified import provision" substitute—

""specified import provision" ("*darpariaeth fewnforio benodedig*") means any provision of Regulation 2017/625 or the Regulation 2017/625 package that is specified in Column 1 of Schedule 6 and whose subject-matter is described in Column 2 of that Schedule."

19. In regulation 23 (feed enforcement responsibilities and competent authority status)—

(a) in paragraph (2), for "Regulation 669/2009 apart from Article 19" substitute "Regulation 2019/1793";

(b) omit paragraph (4).

20. In regulation 24 (food enforcement responsibilities and competent authority status)—

(a) in paragraph (2), for "Regulation 669/2009 apart from Article 19" substitute "Regulation 2019/1793";

(b) omit paragraph (4).

21. In regulation 25 (functions of the Commissioners), for "customs services under Article 24 of Regulation 882/2004 and Article 10 of Regulation 669/2009" substitute "customs authorities under Articles 46, 57, 75 and 76 of Regulation 2017/625 and Article 4 of Regulation 2019/1793".

22. In regulation 27 (deferred execution and enforcement), in paragraph (6), for "Article 15(5) of Regulation 882/2004" substitute "Article 47(1)(d) and (2)(b) and Article 54(4) of Regulation 2017/625".

23. In regulation 29 (checks on products), for "Article 16 of Regulation 882/2004", in each place it occurs, substitute "Articles 34(5) and (6), 44(2) and 45(1), (2) and (4) of Regulation 2017/625".

24. Yn lle rheoliad 30 (atal dynodiad pwyntiau mynediad) rhodder—

"Tynnu safleoedd rheoli ar y ffin yn ôl a'u hatal

30.—(1) Pan fo'r Asiantaeth wedi'i bodloni bod safle rheoli ar y ffin wedi peidio â chydymffurfio â'r gofynion y cyfeirir atynt yn Erthygl 64 o Reoliad 2017/625 a Rheoliad 2019/1014 caiff dynnu dynodiad y safle rheoli ar y ffin yn ôl ar gyfer pob categori o anifeiliaid a nwyddau y gwnaed y dynodiad ar eu cyfer, neu ar gyfer categorïau penodol ohonynt, drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r perwyl hwnnw i weithredydd y safle rheoli ar y ffin.

(2) Pan fo'r Asiantaeth wedi'i bodloni bod yr amodau y cyfeirir atynt yn Erthygl 63(1) o Reoliad 2017/625 yn gymwys caiff atal dynodiad y safle rheoli ar y ffin ar gyfer pob categori o anifeiliaid a nwyddau y gwnaed y dynodiad ar eu cyfer, neu ar gyfer categorïau penodol ohonynt, drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r perwyl hwnnw i weithredydd y safle rheoli ar y ffin ac os oes risg ddifrifol i iechyd pobl neu i iechyd anifeiliaid bydd atal y dynodiad yn cael effaith ar unwaith.

(3) Pan gyflwynir hysbysiad o dan baragraff (2), mae'r safle rheoli ar y ffin yn peidio â bod yn safle rheoli ar y ffin dynodedig i'r graddau a bennir yn yr hysbysiad hwnnw hyd nes y caiff yr ataliad ei ddiddymu drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r perwyl hwnnw a gyflwynir gan yr Asiantaeth i weithredydd y safle rheoli ar y ffin.

(4) Pan fo'r Asiantaeth wedi'i bodloni ei bod yn rhesymol tynnu'r dynodiad yn ôl neu ei atal am resymau heblaw'r rhai y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1) a (2) caiff wneud hynny ar gyfer pob categori o anifeiliaid a nwyddau y gwnaed y dynodiad ar eu cyfer, neu ar gyfer categorïau penodol ohonynt, drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r perwyl hwnnw i weithredydd y safle rheoli ar y ffin."

25. Yn rheoliad 31 (cadw, distrywio, trin yn arbennig, ailanfon a mesurau a chostau priodol eraill)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "Erthyglau 18 i 21 a 24(3) o Reoliad 882/2004" rhodder "Erthyglau 46, 65 i 69, 71, a 72 o Reoliad 2017/625";

(b) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Mae'r mesurau a gymerir gan yr awdurdod gorfodi o dan Erthyglau 66, 67 a 69 o Reoliad 2017/625 yn unol â pharagraff (1) i'w cymryd ar draul y gweithredydd sy'n gyfrifol am y llwyth."

24. For regulation 30 (suspension of designation of points of entry) substitute—

"Withdrawal and suspension of border control posts

30.—(1) Where the Agency is satisfied that a border control post has ceased to comply with the requirements referred to in Article 64 of Regulation 2017/625 and Regulation 2019/1014 it may withdraw the designation of the border control post for all or for certain categories of animals and goods for which the designation was made by service on the operator of the border control post of a written notice to that effect.

(2) Where the Agency is satisfied that the conditions referred to in Article 63(1) of Regulation 2017/625 apply it may suspend the designation of the border control post for all or for certain categories of animals and goods for which the designation was made by service on the operator of the border control post of a written notice to that effect and if there is a serious risk to human or animal health the suspension may be with immediate effect.

(3) Upon service of a notice under paragraph (2), the border control post ceases to be a designated border control post to the extent specified in that notice until the suspension is removed by service by the Agency on the operator of the border control post of a written notice to that effect.

